**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 22 Hydref 2018*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 4 Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 4 Rhagfyr 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 10 Rhagfyr 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 35 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â deddfwriaeth Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) ac, yn benodol, i sicrhau parhad, ar draws y Deyrnas Unedig, ar ôl y diwrnod gadael o esemptiadau sy'n berthnasol yn syth cyn y diwrnod gadael.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.